

Rhifyn 51

Y Môr

Ar lan y môr

Mae trefi glan y môr yn gallu bod **yn lliwgar iawn**.

Dyma Aberaeron...



a Dinbych-y-pysgod:



'Nôl

Nesaf

Pam tybed?

Wel, yn ôl y sôn, roedd pysgotwyr yn hoffi peintio'u tai mewn lliwiau gwahanol fel eu bod nhw'n gwybod pa un oedd eu tŷ nhw ar ôl gorffen pysgota!

Mae **enwau tai** mewn trefi glan y môr yn gallu bod yn annisgwyl hefyd:





Pam tybed?

Wel, mae llawer o'r enwau yn dangos y cysylltiad rhwng y bobl oedd yn byw yn y tai'n wreiddiol a'r môr gan eu bod nhw wedi ymweld â'r manau hyn wrth weithio ar y llongau 'slawer dydd.

Mae llawer o dai eraill sy'n cynnwys y gair MÔR yn eu henwau:







Bywyd môr arfordir Cymru

CWIS

BYWYD MÔR ARFORDIR CYMRU – DEWIS DEG

Siarcod! Morfilod! Draenogod y Môr! Octopws! Dolffiniaid! Morloi?!

Mae cannoedd ar filoedd o wahanol greaduriaid yn byw yn y môr – o bob lliw a llun! Ond a ydych chi'n gwybod pa un o'r rhain sydd i'w gweld yn y môr o gwmpas Cymru?

Edrychwch ar y lluniau a dewis chwe chreadur y gallwch chi eu gweld oddi ar arfordir Cymru.



SIARC



PYSGODYN CLOWN



MORLO



DOLFFIN



MORFIL



MORGATH DDU



CHWYDDBYSGODYN



CRWBAN Y MÔR



MORFARCH



GWRACHEN Y MÔR

Nawr, edrychwch ar yr ATEBION i weld a ydych chi'n gywir!

SIARC	CYWIR! Mae mwy nag un math o siarc yn nofio o gwmpas Cymru weithiau, yn cynnwys y siarc mawr (basking shark) a'r siarc glas (blue shark). Maen nhw i'w gweld yn ardal Bae Ceredigion a Sir Benfro. Yn Asia, mae rhai pobl yn hoffi bwyta esgyll siarcod!
PYSGODYN CLOWN	ANGHYWIR! Rydych chi'n fwy tebygol o weld hwn yn nofio ar sgrîn deledu neu yn y sinema yn y ffilm Finding Nemo. Pysgodyn sy'n byw mewn moroedd cynnes fel Cefnfor India a'r Môr Tawel ydy hwn. Mae môr arfordir Cymru'n rhy oer iddo!
MORLO	CYWIR! Mae'n bosib gweld morloi o gwmpas arfordir Sir Benfro, yn enwedig yn ardal Ynys Dewi, ac ym Mhen Llŷn, er enghraifft.
DOLFFIN	CYWIR! Mae'n bosib gweld dolffiniaid yn nofio mewn sawl man ar hyd arfordir Cymru, o Sir Fôn i Benrhyn Llŷn yng Ngwynedd, Cei Newydd yng Ngheredigion, Sgomer yn Sir Benfro ac arfordir De Cymru. Weithiau, mae'n bosib gweld cannoedd ohonyn nhw'n nofio ac yn bwydo gyda'i gilydd!
MORFIL	CYWIR! Y morfil orca yw aelod mwyaf teulu'r dolffin. Mae'n gallu mesur hyd at 7 metr o hyd. Mae morfilod orca wedi cael eu gweld sawl gwaith yn chwilio am fwyd yn ardal Mwnt, Ceredigion.
MORGATH DDU	CYWIR! Mae morgathod du wedi cael eu gweld yn nofio yn y môr ar hyd arfordir De Cymru, Sir Benfro a Cheredigion. Maen nhw'n gallu bod yn beryglus os ydyn nhw'n eich pigo chi.
CHWYDDBYSGODYN	ANGHYWIR! Yn rhannau cynnes y Môr Tawel, Môr Iwerydd a Cefnfor India mae chwyddbysgod yn byw. Pan fyddan nhw'n cael eu bygwth, maen nhw'n llyncu dŵr ac yn chwyddo'u cyrff. Maen nhw'n gallu bod yn wenwynig iawn hefyd!
CRWBAN Y MÔR	ANGHYWIR! Yn nŵr cynnes Cefnfor India mae crwbanod y môr yn byw.

MORFARCH	CYWIR! Mae dau fath yn byw o gwmpas arfordir Cymru – y morfarch trwyn cwta a'r morfarch pigog.
GWRACHEN Y MÔR	CYWIR! Pysgodyn lliwgar sydd i'w weld yn y môr yng ngogledd Bae Ceredigion. Gwrachen y môr yw un o'r ychydig bysgod sy'n gallu newid eu rhyw.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
esgyll	y gair lluosog am asgell, sef aden pysgodyn	fins
penrhyn	darn o dir sydd â môr o'i amlych ar dair ochr	peninsula
gwrachen y môr	enw math arbennig o bysgodyn lliwgar	cuckoo wrasse
chwyddo	gwneud rhywbeth yn fwy	swell

Blwyddyn y Môr

O dan y môr a'i donnau

Tonnau, traethau, creigiau, cychod ... Oeddech chi'n gwybod fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mai 2018 yw Blwyddyn y Môr? Mae hyn yn dilyn:

- 2016 – Blwyddyn Antur
- 2017 – Blwyddyn y Chwedlau.

Diben Blwyddyn y Môr yw dathlu arfordir hyfryd Cymru a denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd i gael mwynhau bywyd ar hyd ei glannau.



Cafwyd y llun hwn oddi ar wefan croeso.cymru

Bydd Blwyddyn y Môr yn 2018 yn rhoi cyfle i bobl feddwl eto am Gymru drwy hyrwyddo

- ei chynnyrch – o fwyd i grefftau
- digwyddiadau a phrofiadau o bob math – o hwylio i nofio a physgota
- golygfeydd hardd – o borthladdoedd i draethau
- pobl Cymru a'u bywyd – eu teuluoedd a'u gwaith

... hynny yw, popeth sy'n gwneud Cymru'n lle unigryw i ymwelwyr.

Beth yw neges fawr Blwyddyn y Môr?

Neges fawr Blwyddyn y Môr yw Ein Glannau Epig. Mae'r glannau'n cynnwys llynnoedd ac afonydd Cymru hefyd. Bydd y flwyddyn yn dangos pa mor anhygoel yw Cymru fel gwlad – o'r môr i ben y mynydd!

Os ydych chi eisiau darllen mwy, ewch i: croeso.cymru

Addaswyd o wefan croeso.cymru

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
unigryw	rhywbeth arbennig iawn	unique
hyrwyddo	hysbysebu, rhoi hwn i rywbeth	(to) promote
arfordir	lle mae'r tir a'r môr yn cwrdd	coast
cynnyrch	rhywbeth sy'n cael ei greu	produce
porthladdoedd	lle mae llongau'n dod i'r lan i ddadlwytho	ports
epig	anhygoel, gwell nag unrhyw beth arall	epic

Stori

Gwylanod, storm, merched prydfferth a thonnau'r môr

Mae chwedlau am y môr i'w cael ym mhob rhan o Gymru ond efallai mai un o'r rhai enwocaf yw chwedl Merched y Môr o ardal Cei Newydd yng Ngheredigion. Dyma'r stori:

Tair merch hardd iawn o ardal Cei Newydd oedd Branwen, Gwenllian a Llio. Roedden nhw'n byw gyda'u tad bonheddig mewn plasty mawr ar y creigiau uwchben y traeth. Bob dydd, byddai'r merched yn mynd am dro ar hyd y traeth ac yn gwrando ar y tonnau bach yn sibrwd ar yr awel.

'Branwen, Gwenllian, Llio – merched hardda'r byd.'

Cariodd tonnau'r môr yr hanes am harddwch y merched i bob cwr o'r byd. Roedd pawb yn rhyfeddu o weld eu llygaid glas, disglair, eu croen sidanaidd a'u gwallt hir, euraidd. Aeth y sôn amdany'n nhw drwy'r tonnau ac i lawr i ddyfnderoedd y môr at y môr-forynion ac at Dylan, Brenin y Môr, oedd yn byw yn ei gastell cwrel a grisial o dan y dŵr.

'Branwen, Gwenllian, Llio – merched hardda'r byd.'

Un diwrnod, penderfynodd Dylan y byddai'n rhaid iddo fynd i Geinewydd i weld y merched hardd drosto'i hun. Nofiodd drwy'r tonnau a chodi'i ben uwchben y dŵr. Fel arfer, dyna ble roedd y merched yn cerdded ar hyd y traeth wrth i'r tonnau bach sibrwd ar yr awel.

'Branwen, Gwenllian, Llio – merched hardda'r byd.'

Doedd Dylan ddim yn gallu credu pa mor hardd oedd y merched. Ar ôl mynd yn ôl i'w gastell dan y môr y noson honno, penderfynodd y byddai'n rhaid iddo gael y tair i fyw gydag e. Ceisiodd feddwl am gynllun a fyddai'n eu denu i'w gartref o dan y dŵr.

Y noson wedyn, roedd storm ddychrynlyd yn ardal Cei Newydd – y storm waethaf erioed. Chwipiodd y gwynt y tonnau ar hyd y traeth gan olchi dros gychod y pysgotwyr yn yr harbwr. Chwyddodd y dŵr gan lapio'r creigiau o gwmpas y plasty uwchben gan godi ofn ac arswyd ar bawb. Meddyliodd Branwen iddi glywed sŵn rhywun yn galw y tu allan i'r plasty a phenderfynodd fynd i'r drws i weld beth oedd yn bod. Cyn gynted ag yr agorodd y drws, caeodd hwnnw'n glep y tu ôl iddi a diflannodd i'r nos. Aeth Gwenllian i weld beth oedd wedi digwydd i'w chwaer a chyn gynted ag yr agorodd hi'r drws, caeodd hwnnw'n

glep eto a diflannodd hithau i'r nos. Dim ond Llio oedd ar ôl nawr, a chan ei bod hi'n dechrau gofidio am ei chwiorydd, aeth hithau draw at y drws a'i agor. Cyn gynted ag y gwnaeth hynny, gallai deimlo tonnau'r môr yn goglais ei thraed a'r ewyn yn anwesu ei boch. Yna, teimlodd law ar ei hysgwydd – llaw wlyb Dylan, Brenin y Môr.

Erbyn y bore, roedd y storm wedi tawelu a'r awyr uwchben yn las unwaith eto. Cododd y tad a sylweddoli'n sydyn iawn nad oedd ei ferched yno. Gyrodd ei weision lawr i'r pentref i chwilio amdany'n nhw a chyn bo hir, daeth un ohony'n nhw nôl â'i wynt yn ei ddwrn. Roedd e wedi bod yn siarad â physgotwr yn y pentref oedd wedi bod allan y noson gynt yn edrych ar ei gwch pan welodd ei wallt euraidd hir yn nhonnau'r môr. Torrodd y tad ei galon. Roedd e'n gwybod mai gwallt euraidd hir oedd gan Branwen, Gwenllian a Llio. Aeth i lawr i'r traeth ar unwaith. Roedd y tonnau bach yn dal i sibrwd:

'Branwen, Gwenllian, Llio – merched hardda'r byd.'

Ond doedd dim sôn amdany'n nhw yn unman.

Yn ei gastell cwrel a chrisial o dan y môr roedd Dylan, Brenin y Môr. Er ei fod wedi llwyddo i gipio Branwen, Gwenllian a Llio i fyw gydag e o dan y tonnau, roedd hi'n amlwg nad oedd y merched yn hapus o gwbl. Roedd hiraeth arny'n nhw – hiraeth am eu tad, hiraeth am Geinewydd a hiraeth am eu bywyd ar y tir. Er bod Dylan wedi cael ei ddymuniad, doedd yntau ddim yn hapus wrth weld y dagrau yn llygaid merched hardda'r byd. Sylweddolodd y byddai'n rhaid iddo wneud rhywbeth i'w cysuro nhw. Allai'r merched byth â mynd nôl i fyw at eu tad. Ceisiodd feddwl sut allai eu gwneud nhw'n rhan o'r môr ac yn rhan o'r tir ar yr un pryd. Yna, cafodd syniad. Trodd y tair yn wylanod gwyn, hardd. Fe allen nhw wedyn hedfan yn ôl i'r tir at eu tad yn ystod y dydd a dod nôl ato i'w gastell o dan y môr gyda'r nos.

Bob dydd felly, byddai'r tair gwylan yn hedfan nôl i draeth Cei Newydd, lle roedd eu tad yn dal i gerdded nôl a 'mlaen bob dydd yn chwilio amdany'n nhw. Byddai'r tair yn glanio yn ei ymyl ac yn cadw cwmni iddo. Daeth y tad i sylweddoli'n sydyn iawn mai ei ferched e oedd y tair gwylan hardd, ond roedd ei hiraeth amdany'n nhw'n dal i dorri ei galon.

Roedd hiraeth ar y merched hefyd. A dyna, medden nhw, pam mae cri pob gwylan yn swnio mor drist, hyd yn oed heddiw. Maen nhw'n dal i hiraethu am

'Branwen, Gwenllian, Llio - merched hardda'r byd.'

GWYBODAETH

Mae'n bosib gweld fideo Jeremy Turner yn adrodd fersiwn T. Llew Jones o'r chwedl ar lan y môr drwy ddilyn y ddolen hon:

<http://www.tllew.cymru/fideos.html>

Mae llawer o chwedlau eraill, heblaw am chwedl **Merched y Môr**, i'w cael ar hyd a lled y byd. Mae llawer yn sôn am sŵn clychau sydd i'w clywed yn y môr – clychau llongau neu ddinasoedd neu wledydd coll.

Ydych chi wedi clywed un o'r chwedlau hyn?

Un o'r chwedlau mwyaf enwog am y môr yw chwedl **Cantre'r Gwaelod**. [Darllenwch eiriau cerdd y bardd J.J. Williams yma.](#)

Llythyr

Tŷ Pella,
Porth Madryn,
Patagonia,
De America
16 Ebrill 1996

Annwyl Ffrind,

Ardderchog! Os ydych chi'n darllen y llythyr hwn, mae fy nghynllun wedi llwyddo! Fe wnes i roi'r llythyr hwn yn ddiogel mewn potel a'i thaflu i ganol tonnau Môr Iwerydd ar ddiwrnod fy mhen-blwydd yn bymtheg oed. Arbrawf oedd y cyfan – arbrawf i weld os oedd hi'n bosib i lythyr mewn potel groesi'r môr mawr a chyrraedd rhywun ym mhen draw'r byd – rhywun o Gymru yn ddelfrydol!

Gadewch i mi gyflwyno fy hun. Maria Gonzalez Jones yw fy enw i a dw i'n byw yn nhref Porth Madryn ar arfordir Patagonia, sy'n rhan o wlad yr Ariannin, gyda fy rheulu – Mam a Dad a dau frawd mawr – lanto a Pedro. Dw i'n mynd i'r ysgol fan hyn yn y dref ac yn siarad Cymraeg a Sbaeneg gyda'r teulu a'm ffrindiau.

Efallai ei bod hi'n anodd i chi gredu, ond roedd fy hen hen hen fam-gu yn dod o Gymru. Oedd wir! O Dde Cymru, mae'n debyg. Dyna sut mae ein teulu ni'n dal i siarad Cymraeg. Fe ddaeth hi ar draws y môr yma i Dde America yn 1865 gyda Michael D. Jones a'r ymfudwyr cyntaf ddaeth yma i Batagonia i chwilio am fywyd newydd. Wedi hwylio mewn cwch o Lerpwl oedden nhw. Roedd hi'n ugain oed pan ddaeth hi yma gyda'i hewythr a'i modryb. Penderfynodd ei rhieni hi beidio â mentro ar draws y tonnau. Roedd Patagonia'n rhy bell iddyn nhw, yn ôl y sôn.

Dw i'n mwynhau byw yma ym Mhorth Madryn. Mae'n dref brysur ar lan y môr a dw i wrth fy modd yn mynd am dro lawr i lan y môr gyda ffrindiau yn yr haf. Ryw ddiwrnod, dw i'n gobeithio mynd i'r coleg er mwyn dysgu bod yn athrawes, fel Mam.

Ro'n i eisiau anfon y llythyr hwn er mwyn gweld a fyddai tonnau'r môr yn gallu ei gario, gyda'n cofion cynnes ni fel teulu, 'nôl yr holl ffordd i Gymru – neu unrhyw le yr ochr arall i'r Môr Iwerydd, a dweud y gwir.

Cofia anfon gair nôl ata i! Dw i wrth fy modd yn cwrdd â phobl newydd!

Cariad mawr oddi wrth dy ffrind newydd,

Maria x

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
arbrawf	trio rhywbeth i brofi ffaith	experiment
delfrydol	gorau posib, perffaith	ideal
Ariannin	gwlad yn Ne America	Argentina
ymfudwyr	pobl sy'n symud i fyw o un wlad i'r llall	emigrants

Cymry a'r Môr

Mae llawer o Gymry wedi dod yn enwog dros y byd i gyd am eu campau ar y môr dros y blynyddoedd. Dyma i chi rai ohonyn nhw.

CYMRY A'R MÔR – Y Drwg a'r Da!

Y DRWG

Syr Henry Morgan (Harri Morgan)



Enw: Syr Henry Morgan (Harri Morgan)

Dyddiadau: 1635-1688

Cefndir: Mab i ffermwr o ardal Llanrhymini, Caerdydd

Enwog fel: Môr-leidr

Hanes: Ymfudodd i India'r Gorllewin a gwneud enw iddo'i hun fel un o fôr-ladron enwocaf yr ail ganrif ar bymtheg. Aeth i fyw i Port Royal, Jamaica, un o borthladdoedd mwyaf peryglus y byd. Yno, ymladdodd mewn sawl brwydr waedlyd yn erbyn llongau Sbaen ac mewn gwahanol rannau o'r Caribî. Mae'n debyg iddo fod yn gweithio yno i Oliver Cromwell ac i Charles II, Brenin Lloegr, ar yr un pryd ag yr oedd yn fôr-leidr.

Er iddo gael ei arestio gan fyddin brenin Lloegr yn Panama, yn y pen draw, cafodd ei wobrwyo gan Lywodraeth Prydain drwy ei wneud yn 'Syr'. Daeth yn Llywodraethwr Jamaica wedi hynny!

Bartholomew Roberts (Barti Ddu)



Enw: Bartholomew Roberts (Barti Ddu)

Dyddiadau: 1682-1722

Cefndir: O Gasnewydd Bach, Sir Benfro

Enwog fel: Môr-leidr

Hanes: Ymosod a dwyn oddi ar longau yn y Môr Iwerydd a'r Caribî rhwng 1719 a 1721. Anfonodd Llynges Frenhinol Prydain ddwy long ryfel i'w ddal, ac yn 1722, cafodd ei ladd mewn brwydr ger arfordir Affrica. Yn ogystal â'r Faner Ddu oedd yn chwifio ar fast llong pob môr-leidr, roedd ganddo ei faner bersonol, yn ei ddangos ei hun yn sefyll ar ddwy benglog. Mewn brwydr, gwisgai wasgod goch, trowsus pen-glin, pluen goch yn ei het a chroes ddiemwnt ar gadwyn aur am ei wddf. Mae sôn iddo ddweud mai 'bywyd byr a llawen fydd f'arwyddair'.

Yn fyd-enwog, Barti Ddu oedd yr olaf o'r môr-ladron mawr.

Beth am ddarllen mwy am hanesion Barti Ddu yn nofel gyffrous T. Llew Jones, *Barti Ddu*?

Y DA

Richard Tudor

Enw: Richard Tudor

Dyddiadau: 1959-

Cefndir: Un o deulu o hwylwyr sy'n byw yn Llanbedrog ger Pwllheli.

Enwog fel: Capten iot a lwyddodd i hwylio o gwmpas y byd ar ddau achlysur fel rhan o ras y British Steel Challenge, yn 1992/3 a 1996/7 – pellter o 29,000 milltir bob tro. Dyma un o rasys hwylio anoddaf y byd.

Hanes: Roedd ras 1992 yn dechrau yn Southampton yn Lloegr, cyn mynd ymlaen i [Buenos Aires](#) yn yr Ariannin, Wellington yn Seland Newydd, Sydney yn Awstralia, Cape Town yn Ne Affrica, Boston yn UDA a La Rochelle yn Ffrainc, cyn cyrraedd nôl unwaith eto yn Southampton. Llwyddodd Richard Tudor i gwblhau'r ras yn ei gwch *British Steel* llmewn 165 diwrnod 25 munud a 7 eiliad, yn y 10fed safle, mewn cwch 20 metr o hyd gyda chriw o 13 yn gefn iddo.

Yn 1996, llwyddodd Richard Tudor a chriw'r *Nuclear Electric* i ennill y chweched safle yn y ras, gan orffen mewn 171 diwrnod 1 awr 29 munud a 10 eiliad.

Y trydydd tro iddo gystadlu yn y ras, aeth ei gatamaran ffeibr carbon gwerth £2.5 miliwn, i drafferthion a dechreuodd dorri'n ddarnau. Yn ffodus, cafodd y criw eu hachub gan long oedd ar y ffordd i Halifax, Nova Scotia.

Ei hoff le i hwylio yw Bae Ceredigion, lle mae'n bosib gweld golygfeydd bendigedig o Gader Idris ac Eryri. Mae'r môr yno'n weddol fas, ac yn dawel fel arfer.

<http://www.bbc.co.uk/wales/northwest/halloffame/sport/richardtudor.shtml>

Elin Haf Davies

Enw: Elin Haf Davies

Dyddiadau: 1976-

Cefndir: Yn wreiddiol o bentref y Parc, ger y Bala

Yn enwog fel: Rhwyfwraig a hwylwraig

Hanes: Elin oedd y ferch gyntaf erioed o Gymru i rwyfo ar draws Môr Iwerydd – pellter o 2,552 milltir – a hynny mewn cwch 24 troedfedd o hyd o'r enw *Dream*

Maker gyda'i ffrind a'i chyd-nyrs Herdip Sirdu. Cystadlu yn ras y Woodvale Challenge 2007/2008 oedden nhw – ras sy'n cael ei disgrifio fel y ras rwyfo anoddaf yn y byd. Gweithiodd y pâr shifftiau 4 awr yr un drwy'r dydd a'r nos, gan rwyfo cyfanswm o 12 awr y dydd yr un. Fe gymerodd y daith o La Gomera i Antigua 77 diwrnod 7 awr a 37 munud.

Flwyddyn yn ddiweddarach, roedd hi'n aelod o griw o bedair merch ar gwch y *Pura Vida* a dorrodd record y byd wrth rwyfo mewn ras ar draws Cefnfor India. Dechreuodd y ras yn Geraldton, Awstralia, a gorffen ar ynys Mauritius – pellter o 3,139 milltir. Gorffennodd y pedair y ras mewn 78 diwrnod, 15 awr a 54 munud.

Yn 2012, dysgodd sut i hwyllo er mwyn ymuno â chriw y *Visit Finlad* er mwyn cystadlu yn y *Clipper Round the World Yacht Race*. Roedd y ras yn dechrau yn Quingdao, China, ac yn gorffen yn San Francisco, UDA – pellter o 5,680 milltir. Gorffennodd y criw o 17 y ras mewn 30 diwrnod.

Os hoffech chi wybod mwy am stori Elin, beth am ddarllen ei llyfr *Ar Fôr Tymhestlog?*


Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
ymfudo	symud i fyw i wlad arall	(to) emigrate
porthladdoedd	lle mae llongau'n cyrraedd y lan	ports
brwydr waedlyd	gelynyon yn ymladd yn ffyrnig yn erbyn ei gilydd	bloody battle
gwobrwyo	cael gwobr am wneud rhywbeth	(to) award
llywodraethwr	yr un sy'n rheoli rhywbeth neu rywle	governor
Llynges Frenhinol	morwyr sy'n gofalu am Brydain o gwmpas y byd	Royal Navy
arfordir	lle mae'r tir yn cwrdd â'r môr	coast

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
penglog	asgwrn y pen	skull
iot	cwch fach â hwyliau arni	yacht

Pysgod! Pysgod! Pysgod!

Dros y canrifoedd, mae pobl wedi bod yn dibynnu ar y môr am bysgod. Bob blwyddyn, mae pobl Sir Benfro'n dathlu hynny. Dewch i weld sut ...



Cafwyd y llun hwn oddi ar wefan [Wythnos Bysgod Sir Benfro](#)

Wythnos Bysgod Sir Benfro yw un o wyliau bwyd mwyaf Prydain. Mae'n digwydd ar hyd a lled y sir ar ddiwedd Mehefin a dechrau Gorffennaf bob blwyddyn.

	<p>Pysgota</p>
	<p>Dangos pysgod</p>



Gwerthu pysgod



Trin pysgod



Coginio pysgod



**Bwyta pysgod ...
barbiciw, tapas,
pysgod a
sglodion!**



**Dal pysgod ...
rhwydi, gwialen,
cychod,
cwryglau!**



**Dysgu am
bysgod a
chreaduriaid y
môr**



**Cerdded ar lan y
môr**



**Cael sbort a sbri
gyda chychod ...**



a physgod!

Cafwyd y lluniau i gyd oddi ar wefan [Wythnos Bysgod Sir Benfro](#)

Mae gwyliau tebyg yn cael eu cynnal mewn rhannau eraill o Gymru hefyd:

- Gŵyl Bwyd Môr Bae Ceredigion yn Aberaeron ddiwedd mis Awst.
- Gŵyl Llymarch a Chynnyrch Bwyd Cymreig Sir Fôn ym mis Hydref.

Llygredd yn y môr

Mae gofalu am yr amgylchedd yn rhywbeth pwysig iawn i bob un ohonon ni. Darllenwch y ddau ddarn canlynol sy'n sôn am y ffordd y gall yr amgylchedd, a'r môr yn enwedig, gael ei effeithio gan ddyn.

[Cliciwch yma i ddarllen a gwranddo ar gerdd.](#)

Trychineb ar Arfordir Sir Benfro

Noson y 15fed o Chwefror 1996 oedd un o'r tywyllaf yn hanes arfordirol Sir Benfro pan aeth y tancer olew, yr MV Sea Empress, i drafferthion wrth geg harbwr Aberdaugleddau, gan achosi i'w llwyth olew lifo i'r môr. Ar y pryd, dyma'r trydydd llif olew gwaethaf yn hanes Prydain, a chafodd y llygredd effaith trychinebus ar arfordir Sir Benfro am flynyddoedd lawer wedyn. Lladdwyd llawer o fywyd gwyllt, yn cynnwys adar, pysgod a phlanhigion.

Roedd yr MV Sea Empress ar ei ffordd tua moryd y Cleddau a phurfa olew Texaco yn Aberdaugleddau â'i llwyth o olew pan ddigwyddodd y ddamwain. Ychydig wedi wyth o'r gloch y nos, a hithau'n hwylio yn erbyn y llanw, cafodd y tancer ei gwthio oddi ar ei llwybr i ganol sianel yr afon, lle trawodd yn erbyn creigiau, gan hollti ei hochr. Llifodd 73,000 tonn o'i 130,000 tonn o olew i'r môr gan achosi difrod difrifol mewn ardal oedd yn rhan o Barc Cenedlaethol Sir Benfro.

Cafodd 210 cilomedr o'r arfordir ei orchuddio ag olew crai yn dilyn trychineb yr MV Sea Empress, a chostiodd y gwaith glanhau tua £60 miliwn.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
llygredd	sbwriel neu wenwyn yn yr amgylchedd	pollution
tarddle	lle mae rhywbeth yn dechrau	source
heigiau	grwpiau o bysgod	shoals
dyfroedd	y gair lluosog am ddŵr	waters
gweigion	y gair lluosog am wag	empty
ynghudd	rhywbeth sydd wedi ei guddio	hidden
y genlli	gair arall am y môr	sea
gorfoleddu	dathlu; bod yn hapus	(to) rejoice
trychinebus	rhywbeth ofnadwy iawn	disastrous
moryd	lle mae'r afon yn mynd i'r môr	estuary

Ffeil-o-ffaith Goleudai

Diben goleudy yw rhybuddio llongau ar hyd yr arfordir am beryglon creigiau. Trwy ddefnyddio golau llachar, maen nhw'n gallu rhybuddio'r llongau sy'n pasio i'w cadw nhw'n ddiogel.

Sawl goleudy sydd yng Nghymru tybed?

Wel, 36 yw'r ateb cywir. Mae rhai ohonyn nhw'n dal i weithio a'r lleill wedi stopio gweithio ac wedi cael eu troi'n gartrefi neu'n dai gwyliau erbyn hyn!

Dyma'r prif oleudai ar arfordir Cymru heddiw. Ydych chi wedi clywed am rai ohonyn nhw?

	<p>Trwyn Eilian</p> <p>Enw: Trwyn Eilian</p> <p>Lleoliad: Gogledd-ddwyrain Sir Fôn</p> <p>Uchder: 11 metr</p> <p>Adeiladwyd: 1835</p> <p><i>Llun: Point Lynas Lighthouse - Talsarnau Times © Wikimedia Commons o dan drwydded Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported</i></p>
	<p>Ynysoedd y Moelrhoniaid</p> <p>Enw: Ynysoedd y Moelrhoniaid</p> <p>Lleoliad: Gogledd-orllewin Sir Fôn</p> <p>Uchder: 23 metr</p> <p>Adeiladwyd: 1717</p> <p><i>Llun: The Skerries Lighthouse - geograph.org.uk - 667043 - Anonymous © Wikimedia Commons o dan drwydded Creative Commons Attribution-ShareAlike 2.0</i></p>



Ynys Lawd

Enw: Ynys Lawd

Lleoliad: Caergybi, Sir Fôn

Uchder: 28 metr

Adeiladwyd: 1809



Ynys Enlli

Enw: Ynys Enlli

Lleoliad: Penrhyn Llŷn, Gwynedd

Uchder: 30 metr

Agorwyd: 1821

*Llun: [Lighthouse and Foghorn, Bardsey Island.](#) – [panoramio](#) – [Robert Powell](#) ©
Wikimedia Commons o dan
drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported](#)*



Ynysoedd Tudwal

Enw: Ynysoedd Tudwal

Lleoliad: Penrhyn Llŷn, Gwynedd

Uchder: 10.7 metr

Agorwyd: 1877

*Llun: [St Tudwal's Lighthouse](#) – [geograph-4438265-by-Rude-Health](#) – [Rude Health](#) ©
Wikimedia Commons o dan
drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 2.0 Generic](#)*



Pen Strwmbwl

Enw: Pen Strwmbwl

Lleoliad: Sir Benfro

Uchder: 17 metr

Agorwyd: 1908



South Bishop

Enw: South Bishop

Lleoliad: Sir Benfro

Uchder: 11 metr

Agorwyd: 1839

Llun: [South Bishop East - Kafuffle](#) ©
Wikimedia Commons o dan
drwydded [Creative Commons Attribution-
Share Alike 2.5 Generic](#)



Y Smalls

Enw: Y Smalls

Lleoliad: Penrhyn Marloes, Sir Benfro

Uchder: 41 metr

Agorwyd: 1861

Llun: [Smalls Lighthouse - geograph.org.uk - 1767931 - PeterB](#) © Wikimedia Commons
o dan drwydded [Creative
Commons Attribution-Share Alike 2.0
Generic](#)



Ynys Sgogwm

Enw: Ynys Sgogwm

Lleoliad: Sir Benfro

Uchder: 18 metr

Agorwyd: 1916

Llun: [Skokholm Lighthouse - geograph - 1856348 - by - Bob-Jones - Bob Jones](#) ©
Wikimedia Commons o dan
drwydded [Creative Commons Attribution-
Share Alike 2.0 Generic](#)



Penrhyn St Ann

Enw: Penrhyn St Ann

Lleoliad: Sir Benfro

Uchder: 13 metr

Agorwyd: 1844

Llun: [Lighthouse at St Ann's Head - geograph.org.uk - 1020066](https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Lighthouse_at_St_Ann's_Head_-_geograph.org.uk_-_1020066) - [Ruth Sharville](https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Ruth_Sharville) © Wikimedia Commons o drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 2.0 Generic](https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0/)



Ynys Bŷr

Enw: Ynys Bŷr

Lleoliad: Sir Benfro

Uchder: 16 metr

Agorwyd: 1829



Y Mwmbwls

Enw: Y Mwmbwls

Lleoliad: Abertawe

Uchder: 17 metr

Agorwyd: 1794



Yr As Fach

Enw: Yr As Fach

Lleoliad: Marcross ger Caerdydd

Uchder: 37 metr

Agorwyd: 1832



Ynys Echni

Enw: Ynys Echni

Lleoliad: Môr Hafren

Uchder: 30 metr

Agorwyd: 1737

Llun: [Flat Holm Lighthouse](#) – Cardiff Council
© Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution 3.0 Unported](#)



Dwyrain Wysg

Enw: Dwyrain Wysg

Lleoliad: Casnewydd

Uchder: 11 metr

Agorwyd: 1821

Llun: [East Usk Lighthouse at Newport Wetlands RSPB Nature Reserve](#) – Imagesincommons © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons CC0 1.0 Universal Public Domain Dedication](#)

Prif oleudai ar arfordir Cymru

